"Mewn llafur mae elw"

EISTEDDFOD FLYNYDDOL ABERGYNOLWYN

a gynhelir yn y

GANOLFAN GYMUNEDOL ABERGYNOLWYN

Dydd Sadwrn, Chwefror, 8fed, 2020

Amser dechrau:
Y Prynhawn am 12.00 o'r gloch
Yr Hwyr am 6.30 o'r gloch

Tâl mynediad:
Y Prynhawn - Oedolion £3.00
Yr Hwyr – Oedolion £4

Darperir Ymborth yng Nghaffi Ceunant
hyd at 4 o'r gloch.
Lluniaeth ysgafn yng ngofal y Pwyllgor
6 o'r gloch ymlaen.

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru.
Rhif Elusen: 254461

BEIRNIAID

Cerdd / Cerdd Dant / Alaw Werin:
Arfon Williams, Cwmtirmynach

Llefaru / Llenyddiaeth:
Osian Jones, Yr Wyddgrug

Llenyddiaeth Cynradd:
Arwel a Gwenfair Pierce, Bryncrug

Celf Cynradd:
Nia Rowlands, Llanuwchllyn

Tarian er cof am Esyllt:
Menna Wynne-Pugh, Abergynolwyn

Cyfeilydd:
Prynhawn a'r Hwyr
Tudur P. Jones, F.R.C.O., Tywyn

Llywyddion y Dydd:
Gwilym a Nesta Davies, Melin-y-Coed

Arweinyddion:
Bethan Lawton, Edward Jones, Dafydd Jones

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

Cadeirydd – Gweniona Pugh, Eisteddfa, Abergynolwyn

Is-gadeirydd – Ceinwen Jones, Caerberllan, Llanfihangel-y-Pennant

Trysorydd – Robert Lewis Jones, Caerdydd

Ysgrifenyddion:
Sheila Patterson, Isfryn, Abergynolwyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9YA.
Ffôn: 01654 782 270

Gwen Williams, Cefn Eithin, 27 Maesegryn, Llanegryn,
Tywyn, Gwynedd LL36 9SH.
Ffôn: 01654 713 846

Rhestr y Testunau

Cerddoriaeth

1. Unawd Meithrin a Derbyn (5 oed ac iau). Dewisiad.
   Gwobrau: £2.50, £2, £1 a 20c i'r gweddill.
2. Unawd Bl. 1 a 2. Dewisiad. Gwobrau: £3, £2, £1.
3. Unawd Bl. 3 a 4. Dewisiad. Gwobrau: £4, £3, £2.
4. Unawd Bl. 5 a 6. Dewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.
5. Parti Unsain Bl. 6 ac iau. Dewisiad. Gwobrau: £12, £8, £4.
6. Unawd Merched Bl. 7-9. Dewisiad. Gwobrau: Cwpan a £8, £5, £3.
7. Unawd Bechgyn Bl. 7-9. Dewisiad: Gwobrau: Cwpan a £8, £5, £3.
8. Deuawd Bl. 9 ac iau, Dewisiad. Gwobrau: £12, £8, £6.
9. Unawd Piano Bl. 9 ac iau. Dewisiad. Gwobrau: Cwpan Coffa Eiluned o Lŷn. (Rhodd arbennig Rhys Williams a'r diweddar Douglas Williams) a £10, £7, £4.
   (Y Gwpan i'w dal am flwyddyn yn unig).
10. Unawd ar unrhyw offeryn (heblaw piano ac offeryn pres),
    Bl. 9 ac iau. Dewisiaid. Gwobrau: £10, £7, £4.
11. Unawd Offeryn Pres Bl. 9 ac iau. Dewisiad. Gwobrau: Tarian Len a Julia Newman a £10, £7, £4. *(Y Darian i'w dal am flwyddyn yn unig).*
12. Unawd Offeryn (Unrhyw offeryn) Bl. 10-13. Dewisiad.
    Gwobrau: £15, £10, £5.

Alawon Gwerin

13. Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau. Dewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.
14. Unawd Alaw Werin Bl. 7-9. Dewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

Cerdd Dant

15. Unawd Cerdd Dant Bl. 4 ac iau. Dewisiad. Gwobrau: £4, £3, £2.
16. Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6. Dewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.
17. Unawd Cerdd Dant Bl. 7-9. Dewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

Llefaru

18. Llefaru Meithrin a Derbyn (5 oed ac iau). Dewisiad.
    Gwobrau: £2.50, £2, £1 a 20c i'r gweddill.
19. Llefaru Bl. 1 a 2. Dewisiad. Gwobrau: £3, £2, £1.
20. Llefaru Bl. 3 a 4. Dewisiad. Gwobrau: £4, £3, £2.
21. Llefaru Bl. 5 a 6. Dewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.
22. Llefaru Bl. 7 - 9. Dewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

Yn dilyn agor Ysgol Craig y Deryn, mae'r ddwy eisteddfod leol,
Abergynolwyn a Llanegryn wedi cyd-weithio ar y
cystadlaethau yn y ddwy adran ddilynol.
Cyfyngir y cystadleuwyr i ddalgylch Ysgol Uwchradd Tywyn,
a gwobrwyir yr enillwyr un waith,
ond cyhoeddir yr enwau yn y ddwy eisteddfod.

Llenyddiaeth

23. Meithrin. Ysgrifennu Enw. Gwobrau: £3, £2, £1.
24. Derbyn. Ysgrifennu Enw. Gwobrau: £3, £2, £1.
25. Bl. 1 a 2. Stori. Gwobrau: £3, £2, £1.
26. Bl. 3 a 4. Stori. Gwobrau: £5, £3, £2.
27. Bl. 5 a 6. Stori. Gwobrau: £5, £3, £2.

Celf

28. Meithrin. 'Dyma fi'. Gwobrau: £3, £2, £1.
29. Derbyn. 'Dyma fi'. Gwobrau: £3, £2, £1.
30. Bl. 1 a 2. Unrhyw eitem 2D ar y thema 'Môr a Mynydd'.
    Gwobrau: £3, £2, £1.
31. Bl. 3 a 4. Unrhyw eitem 2D ar y thema 'Môr a Mynydd'.
    Gwobrau: £5, £3, £2.
32. Bl. 5 a 6. Unrhyw eitem 2D ar y thema 'Môr a Mynydd'.
    Gwobrau: £5, £3, £2.

Cyflwynir Tarian Er Cof am Esyllt i'r ymgais orau
yng nghystadlaethau 27 a 32

Cyfarfod yr Hwyr

Cerddoriaeth

33. Band Pres. Agored. Dim Ilai na 10 mewn nifer.
Cyflwyno rhaglen heb fod yn fwy na 10 munud.
Gwobrau: £50, £30, £20
34. Cystadleuaeth unrhyw offeryn. Agored. Hunan ddewisiad a chyflwyno rhaglen heb fod yn fwy na 10 munud.
Gwobrau: £20, £15, £10.
35. Unawd dan 18 oed. Dewisiad. Gwobrau: £20, £15, £10.
36. Unawd dan 25 oed. Dewisiad. Gwobrau: £30, £25, £20.
37. Unawd Sioe Gerdd dan 25 oed. Dewisiad. Gwobrau: £25, £20, £15.
38. Tlws Côr Cymysg Bro Dysynni yn rhoddedig i'r cerddor mwyaf addawol o dan 25ain oed trwy'r dydd.
39. Unawd Gymraeg. Dewisiad. Gwobrau: Cwpan yn rhoddedig gan y diweddar Mr Len Jones, Tywyn a £40, £30, £25.
(Y Gwpan i'w dal am flwyddyn yn unig).
40. Her Unawd. Dewisiad. Gwobrau: £50, £40, £35.
41. Cân Werin Agored. Dewisiad. Gwobrau: £20, £15, £10.
42. Canu Emyn dros 55 oed. Dewisiad. Gwobrau: £25, £20, £15, yn rhoddedig gan Deulu Tan-y-Coed er cof am Gwyndaf a John Pugh.
43. Deuawd Agored. Dewisiad. Gwobrau: £30, £20, £15.

44. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2019/2020. Perfformio Darn Digri – Agored. Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisoes wedi eu cyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol. Perfformiad dim mwy na 4 munud. Rhaid sicrhau copi i'r beirniad. Gwobrau: £30; £15; £10.

Bydd ennill gwobr (1af, 2il neu 3ydd) mewn dwy eisteddfod leol rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2019 a diwedd Gorffennaf 2020, yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2020 am wobrau o £100, £60 a £40.

Am ragor o fanylion gweler gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru www.steddfota.org

45. Parti Meibion, Merched neu Gymysg (dim mwy na 20 mewn nifer). Dewisiad. Gwobrau: Cwpan Clwb Ffermwyr leuanc Bryncrug a £40, £30, £20. *(Y Gwpan i'w dal am flwyddyn yn unig).*
46. Côr Meibion, Merched neu Cymysg. Dewisiad: Gwobr £100. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod rhwng Mai 2018 a Mai 2020 yn rhoi'r hawl i'r côr gystadlu yng nghystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru, yn Eisteddfod Genedlaethol 2020.

Cerdd Dant

47. Unawd Cerdd Dant dan 18 oed. Dewisiad. Gwobrau: £20, £15, £10.
48. Unawd Cerdd Dant Agored. Dewisiad. Gwobrau: Cwpan Tannau Tywyn a £25, £20, £15. *(Y Gwpan i'w dal am flwyddyn yn unig).*

Llefaru

49. Prif Lefaru. Dewisiad. Gwobrau: Cwpan Coffa Mr a Mrs Gerald Owen a £50, £40, £35. *(Y Gwpan i'w dal am flwyddyn yn unig).*
50. Llefaru dan 25 oed. Dewisiad. Gwobrau: Cwpan Coffa Mr a Mrs Dafydd Roberts (Rhoddedig gan Mr a Mrs Dewi Alun Roberts er cof am ei rieni) a £30, £25, £20. *(Y Gwpan i'w dal am flwyddyn yn unig)*
51. Llefaru dan 18 oed. Dewisiad. Gwobrau: £20, £15, £10.
52. Parti Llefaru Agored. Dewisiad. Gwobrau: £40, £30, £20.
53. Cystadleuaeth i ddysgwyr. Perfformiad unigol neu mewn grŵp - amser dim mwy na 4 munud. Gwobrau: £40, £30, £20.

Rhyddiaith

54. Dan 18 oed. Dewisiad. (Unrhyw ffurf ond heb fod dros 500 gair) Gwobr: £15.
55. Rhwng 18 ac 21 oed. Dewisiad. (Unrhyw ffurf ond heb fod dros 500 gair). Gwobr: £15.

Barddoniaeth

56. Englyn. “Haul”. Gwobr: £10.
57. Telyneg. “Gwawr”. Gwobr: £10.
58. Limrig. “Wrth gerdded o’r dafarn un noson”. Gwobr: £10.
59. Llunio brawddeg o’r gair “Coedwig”. Gwobr: £10.
    (Gweler amod rhif 4).

60. **Sgen Ti Dalent?** Mae’r gystadleuaeth yn agored i unigolion neu grwpiau dros 16 oed. Ceir 4 munud i ddiddanu’r gynulleidfa drwy: canu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, chwarae offeryn, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau - UNRHYW BETH a fydd yn difyrru’r gynulleidfa (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio props/offer/ offerynnau cerdd a.y.b.)

    Y Beirniaid fydd y beirniad Canu a Llefaru + un o Swyddogion yr Eisteddfod. Dyfernir y wobr (i’w rhannu fel mae’r Beirniaid yn dymuno) i’r perfformiad/au sydd wedi eu diddanu orau.
    Amodau: rhaid i’r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol; rhaid i’r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu’n ddi-iaith;
    ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn sy’n addas ar gyfer cystadleuaeth arall yn rhaglen yr Eisteddfod.

    Gwobr: £50.00 yn rhoddedig gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Dymuna’r Pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar y rhoddion anrhydeddus y canlynol:

Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James - £360
(sefydlwyd y gronfa i gynorthwyo Eisteddfodau Cymru)

Cyngor Sir Gwynedd - Gronfa’r Degwm - £300.00
Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant - £150.00
Sioe Abergynolwyn £250 (Sioe 2018).

AMODAU

1. Bydd dyfarniad y Beirniad yn derfynol.

2. Bydd gan y Beirniad hawl i rannu neu gwtogi'r gwobrau.

3. Rhaid i bob cystadleuydd dderbyn Cyfeilydd Swyddogol yr Eisteddfod ag eithrio'r partïon, corau ac Unawd o Sioe Gerdd

4. Rhaid gofalu am gopi i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ymhob eitem hunan ddewisiad.

5. DALIER SYLW - Y cyfansoddiadau i law'r YSGRIFENYDDION erbyn Dydd Gwener, Ionawr 24ain, 2020. Ffug enw'n unig ar y gwaith gydag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen dan sêl.

6. DALIER SYLW - Gwaith Llenyddiaeth a Chelf i law'r YSGRIFENYDDION erbyn Dydd Gwener, Ionawr 24ain, 2020.

7. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled a all ddigwydd mewn cysylltiad â'r Eisteddfod.

8. Rhaid anfon tâl cludiad ac amlen ar gyfer dychwelyd LIên a Barddoniaeth o fewn y mis.

9. Rhaid i'r ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol ar ddydd yr Eisteddfod.

10. BYDD BEIRNIADAETH LAFAR AR GYFER POB CYSTADLEUAETH ONI BAI I'R EISTEDDFOD REDEG YN HWYR YNA YSGRIFENEDIG YN UNIG.

11. *Cyfrifoldeb enillwyr y cwpanau, tlysau a tharianau (sydd i'w dal am flwyddyn yn unig) i'w dychwelyd i'r YSGRIFENYDDION, PYTHEFNOS cyn diwrnod yr Eisteddfod h.y. erbyn Dydd Gwener, Ionawr 24ain, 2020.*

12. Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifenyddion.

13. Unrhyw gŵyn yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod.

RHYBUDD
Mae llungopio cerddoriaeth argraffedig sydd o dan hawlfraint yn anghyfreithlon.

DEDDF DIOGELU DATA

'Rydym yn eich sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost) yn cael ei gadw yn gyfrinachol.

Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Tyn y Cefn, Llanuwchllyn. aerontynycefn@gmail.com